# YSGOL CYMERAU
# ADRODDIAD BLYNYDDOL Y LLYWODRAETHWYR I'R RHIENI
# 2017-18

## Y CORFF LLYWODRAETHU

DYMA RESTR O'R AELODAU OEDD AR Y CORFF LLYWODRAETHOL YN YSTOD 2017-18

| | DYDDIAD APWYNTIO | CYFNOD YN DOD I BEN |
|---|---|---|
| **Rhiant Lywodraethwyr**: Mae'r rhain yn cael eu hethol drwy bleidlais y rhieni ac yn gwasanaethu am dymor o 4 blynedd. | | |
| Mr Daniel Richards (Cadeirydd) | 01-09-2014 | 31-08-18 |
| Mr Dylan Morris | 01-09-2016 | 31-08-20 |
| Mrs Siân Watson | 01-09-2016 | 31-08-20 |
| Miss Linda Owen | 01-09-2017 | 31-08-21 |
| **Llywodraethwyr A.A.Ll. Gwynedd:** Penodir y rhain gan yr Awdurdod Addysg Lleol | | |
| Cyngh. Iwan Edgar | 01-09-2017 | 31-08-21 |
| Cyngh. Hefin Underwood | 01-12-2015 | 31-12-19 |
| Mrs Einir Rees Jones | 01-09-2017 | 31-08-21 |
| **Llywodraethwyr Cyfetholedig**: Gwahoddir hwy i ymuno â'r Corff Llywodraethol gan yr aelodau eraill fel arfer am eu gwaith yn y gymuned. | | |
| Mrs Nia Williams | 01-12-2015 | 31-12-19 |
| Mr Aled Davies | 01-12-2015 | 31-12-19 |
| Mrs Ellen Love (Is-gadeirydd) | 01-09-2016 | 31-08-20 |
| **Cyngor Tref Pwllheli**: Penodiad Cyngor Tref Pwllheli | | |
| Cynghorydd Henry Rees Roberts | 01-01-2018 | 01-01-22 |
| **Athro Lywodraethwr**: Etholir o blith yr athrawon gan yr athrawon. | | |
| Mrs Karen Roberts-Jones (Dirprwy). | 01-09-2017 | 31-12-21 |
| **Staff Ategol yr ysgol**: Etholir o blith staff ategol yr ysgol gan y staff ategol. | | |
| Miss Ffion Williams | 01-09-2017 | 31-08-21 |
| **Pennaeth mewn Gofal**: Mrs Helen Vaughan-Jones (Yn ystod secondiad Mr E.Rhys Williams) | 01-12-15 – 31-12-19 | |

## 1. Adroddiad ar weithredu o'r adroddiad olaf

Ni alwyd cyfarfod gyda'r Llywodraethwyr gan rieni yn ystod 2017-18.
Ni chafwyd unrhyw ymateb i'r adroddiad blynyddol sydd ar gael ar y wefan (llythyr yn hysbysu holl rieni).
Nid oedd eitemau penodol i weithredu arnynt.

## 2. Y Llywodraethwyr

Gweler uchod restr o'r enwau a statws y llywodraethwyr ynghŷd â'r dyddiad y daw eu cyfnod i ben.

Mae'r llywodraethwyr wedi cyfarfod yn gyson yn ystod y flwyddyn. Mae'r pennaeth wedi adrodd yn dymhorol ac yn cynnwys adroddiadau ar rifau a phresenoldeb, materion Cwricwlaidd a chanlyniadau, lles, rheolaeth, staffio a chyllid yn ogystal ag adrodd ar lwyddiant yr ysgol, gweithgareddau a digwyddiadau. Mae cofnodion llawn o'r cyfarfodydd ar gael yn yr ysgol.

## 3. Clerc

Clerc y Corff Llywodraethol yw Ms Sharon Williams. Gellir cysylltu â Ms Williams drwy gysylltu â'r ysgol.
Gellir cysylltu â Chadeirydd y Corff drwy anfon nodyn wedi ei gyfeirio iddo drwy law Clerc y Corff.

## 4. Datganiad Ariannol

Gweler atodiad o gyllideb ddiweddaraf yr ysgol.
Cronfa'r Ysgol - Mae'r gronfa yn cael ei harchwilio yn unol â'r gofynion.
Costau Teithio a Chynhaliaeth Llywodraethwyr: £0

## 5. Perfformiad Yr Ysgol / Canlyniadau

# CANLYNIADAU ASESIADAU DIWEDD CYFNOD ALLWEDDOL

**Cyfnod Sylfaen 2017-18**

**IAITH**

| Deilliant | Targed | Canlyniad |
|---|---|---|
| D5+ | 93.5% | 87.9% |
| D6+ | 35.5% | 36.4% |

**MATHEMATEG**

| Deilliant | Targed | Canlyniad |
|---|---|---|
| D5+ | 93.5% | 90.9% |
| D6+ | 48.4% | 45.5% |

**PERSONOL A CHYMDEITHASOL**

| Deilliant | Targed | Canlyniad |
|---|---|---|
| D5+ | 96.8% | 97% |
| D6+ | 64.5% | 72.7% |

**CA2 2017-18**

**CYMRAEG**

| Lefel | Targed | Canlyniad |
|---|---|---|
| L4+ | 85.1% | 84.8% |
| L5+ | 40.4% | 47.8% |

**SAESNEG**

| Lefel | Targed | Canlyniad |
|---|---|---|
| L4+ | 89.4% | 89.1% |
| L5+ | 40.4% | 47.8% |

**MATHEMATEG**

| Lefel | Targed | Canlyniad |
|---|---|---|
| L4+ | 95.7% | 93.5% |
| L5+ | 46.8% | 52.2% |

**GWYDDONIAETH**

| Lefel | Targed | Canlyniad |
|---|---|---|
| L4+ | 91.5% | 89.1% |
| L5+ | 42.6% | 47.8% |

## 6. (Adran Ysgolion Uwchradd yn unig)

## 7. Presenoldeb Yr Ysgol 2017/18

Presenoldeb = 95.04%
Absenoldebau Gydag Awdurdod = 4.3%
Absenoldebau Heb Awdurdod = 0.6%
Targed yr ysgol ar gyfer 2017/18 oedd = 95.2%
Targed Presenoldeb ar gyfer 2018/19 ydi 95.2%

## 8. (Adran Ysgolion Uwchradd yn unig)

## 9. Gweithgareddau, ymwelwyr â'r ysgol a chysylltiadau gyda'r gymuned:

**GWEITHGAREDDAU/YMWELWYR 2017/18:**

- Sioe Cyw (CS)
- Sioe Wy, Chips a Nain (CA2)
- Sioe Mordaith y Mimosa (Bl.3/4)
- Sioe Taith yr Iaith (Bl.5/6)
- Sioe 'Na, Nel!' (Bl.1-4)
- Ffilm 'Brave', Neuadd Dwyfor (Bl.3/4)
- Sioe Fflic a Fflac (CS)
- Sioe Ffracas (CA2)
- Cynllun Gwên (CS)
- Radio Ysgol, Ysgol yr Eifl (Cyngor Ysgol)
- Sesiynau Kerbcraft (CS)
- Eisteddfod Cylch Llŷn ac Eisteddfod Sir
- Diwrnod y Llyfr
- Sesiwn Hwyl Teulu – Gyda'n Gilydd
- Mei Mac – Sesiynau Barddoniaeth (Bl.5/6)
- Cwmni Teledu 'TiPi Ni' a 'Cwmni Da'
- Aled Hughes, Radio Cymru
- Lori Ni, Gwasanaeth Llyfrgell
- Ffair Lyfrau 'Book People' a 'Scholastic'
- Croesawu Baton Gemau'r Gymanwlad i Bwllheli
- Cyflwyniad NSPCC CS/CA2 (Rhian Jones)
- Taith Breswyl Plas Menai (Bl.6)
- Taith Breswyl Plas Tan-y-Bwlch (Bl.5)
- Gwersi Ffrangeg i ddisgyblion Bl.6
- Gwynedd Ddigidol
- Cyngerdd Neuadd Dwyfor (Côr)
- Ymweliadau Pontio Bl.6 – Ysgol Glan y Môr
- Parti Cyw CS ar y traeth
- Diwrnod Dathlu Ieithoedd, GYM (Bl.6)
- Gwasanaeth Gwobrwyo Straeon Tarian Steffan – Rhys Llewelyn
- PROM Bl.6
- Can dan y Goeden, Maes Pwllheli
- Sesiwn Diogelwch y Ffordd (Bl.6)
- Gweithdy Dawnsio (Bl.5/6)
- Gweithdai Byd Gwaith (Bl.5)
- Cystadleuaeth Codio, Coleg Meirion Dwyfor (Bl.5/6)
- Penwythnos Glan-llyn Eryri (Bl.5/6)
- Prosiect Sbectrwm – AbaCh (Bl.1/2)
- Gwenllian, Swyddog Ailgylchu (Bl.3/4)
- Prosiect STEM, Richard Derwyn Jones (Bl.5)
- Ymweliadau Cwricwlwm Amgen Bl.6 - Coleg Meirion Dwyfor Dolgellau, Pwllheli a Glynllifon
- Arolwg Teithio i'r Ysgol, GIG (Bl.3 a 5)
- Sesiynau Cymorth Cyntaf, St Johns (CA2)
- Gwersi Ffrangeg gan athrawes GYM (Bl.6)
- Ymweliadau rheolaidd i'r dref i gynnal gwaith maes

Ceir rhestr lawn o'r ymweliadau a'r ymwelwyr yng nghofnodion llawn y llywodraethwyr ar gael o'r ysgol ac mae'r Llyfr Lloffion sydd yn cael ei gadw yng nghyntedd yr ysgol yn cofnodi amryw o ddigwyddiadau lle mae llun wedi bod yn y wasg leol.

**CYSYLLTIADAU Â'R GYMUNED 2017/18:**

Bu nifer o gysylltiadau gyda'r gymuned yn ystod y flwyddyn gan gynnwys:

- Cefnogi elusennau lleol megis Plant Mewn Angen, Hosbis Dewi Sant, Bocsys Esgidiau Nadolig T4U a Jump Rope for Heart
- Ymweliadau bugeiliol gan PC Dewi Owen (PC Ysgolion)
- Gwasanaethau crefyddol rheolaidd gan gynrychiolwyr o'r Capel a'r Eglwys leol
- Croesawu nifer fawr o fyfyrwyr profiad gwaith o Ysgol Glan y Môr, Coleg Meirion Dwyfor a myfyrywr Prifysgol Bangor yn ystod y flwyddyn.

## 10. Targedau 2018/2019

**Cyfnod Sylfaen 2018-19**

**IAITH**

| Deilliant | Targed |
|---|---|
| D5+ | 64.3% |
| D6+ | 23.8% |

**MATHEMATEG**

| Deilliant | Targed |
|---|---|
| D5+ | 76.2% |
| D6+ | 23.8% |

**PERSONOL A CHYMDEITHASOL**

| Deilliant | Targed |
|---|---|
| D5+ | 95.2% |
| D6+ | 52.4% |

**CA2 2018-19**

**CYMRAEG**

| Lefel | Targed |
|---|---|
| L4+ | 94.4% |
| L5+ | 44.4% |

**SAESNEG**

| Lefel | Targed |
|---|---|
| L4+ | 91.9% |
| L5+ | 45.9% |

**MATHEMATEG**

| Lefel | Targed |
|---|---|
| L4+ | 94.7% |
| L5+ | 42.1% |

**GWYDDONIAETH**

| Lefel | Targed |
|---|---|
| L4+ | 94.7% |
| L5+ | 39.4% |

## 11. Nodau a Chyflawniadau Chwaraeon

Mae'r ysgol yn rhoi bri a statws i amrywiaeth o weithgareddau chwaraeon a gwneir defnydd o'r Neuadd, Canolfan Hamdden Dwyfor, adnoddau Ysgol Glan y Môr, Plas Heli a Chlwb Chwaraeon Efailnewydd i gynnig amrediad o chwaraeon.

Rydym yn defnyddio'r Ganolfan Hamdden yn bennaf i ddatblygu sgiliau nofio'r disgyblion. Yn ogystal â'r gweithgareddau uchod, defnyddir neuadd yr ysgol ar gyfer gweithgareddau dawns a gymnasteg.
Cymerwyd ran mewn cystadlaethau nofio, pêl-droed, criced, rygbi, pêl rwyd, rownderi, 'Sportshall', sesiynau 'Sports for Champions' gan Laura Samuel (Pencampwraig Gemau'r Gymanwlad) ac athletau dalgylch ar gyfer plant CA2. Daeth yr ysgol yn 1af drwy Gymru wrth gymryd rhan yn her 'Big Pedal' gan Sustrans eleni.

Mae'r ysgol yn trefnu a hybu llu o glybiau chwaraeon ac yn dathlu llwyddiannau'r plant yn gyhoeddus, e.e. yn ystod gwasanaethau boreol, cyfryngau cymdeithasol megis gwefan yr ysgol a gosodir cofnod yn y llyfr lloffion.

## 12. Polisïau a Strategaethau

Adolygwyd amryw o bolisïau'r ysgol yn ystod y flwyddyn. Mae copïau o'r polisïau ar gael yn yr ysgol.

## 13. Dyddiadau'r Tymhorau

**GWYLIAU YSGOL 2017-2018**

**TYMOR:**
Hydref 2017: 1 Medi 2017 - 22 Rhagfyr 2017
Gwanwyn 2018: 8 Ionawr 2018 - 23 Mawrth 2018
Hâf 2018: 9 Ebrill 2018 - 20 Gorffennaf 2018
Bydd disgyblion yn dychwelyd i'r ysgol ddydd Llun, 4 Medi, 2017.

**GWYLIAU:**
30 Hydref – 3 Tachwedd 2017 (Hanner-Tymor)
25 Rhagfyr 2017 - 5 Ionawr 2018 (Gwyliau'r Nadolig)
12 - 16 Chwefror 2018 (Hanner-Tymor)
26 Mawrth - 6 Ebrill 2018 (Gwyliau'r Pasg)
7 Mai 2018 (Calan Mai)
28 Mai – 1 Mehefin 2018 (Hanner-Tymor)
23 Gorffennaf - 31 Awst 2018 (Gwyliau'r Haf)
Bydd yr ysgolion yn ail-agor ddydd Llun, 3 Medi, 2018 i athrawon, a dydd Mawrth, 4 Medi i ddisgyblion (i'w gadarnhau)

**Nifer o ddyddiau ymhob mis y bydd yr ysgolion ar agor:**
MEDI 2017 21
HYDREF 2017 20
TACHWEDD 2017 19
RHAGFYR 2017 16
IONAWR 2018 18
CHWEFROR 2018 15
MAWRTH 2018 17
EBRILL 2018 16
MAI 2018 18
MEHEFIN 2018 20
GORFFENNAF 2018 15
----
195
----
1 Medi 2017 - Diwrnod dan Reolaeth Ysgol
4 Diwrnod Hyfforddiant
Daw hyn â'r nifer dyddiau ysgol i ddisgyblion i 190
Bydd ysgolion sy'n cau ar gyfer etholiadau yn agor am y nifer hynny o ddyddiau ar ddiwedd Tymor yr Haf.

**SESIYNAU'R YSGOL:**

| Sesiwn y Bore | Sesiwn y Prynhawn |
|---|---|
| 9:00 – 11:00 (Meithrin) | 1.00 – 3:00 (Meithrin) |
| 9.00 - 12.00 | 1.00 - 3.00 (Cyfnod Sylfaen) |
| 9.00 - 12.00 | 1.00 - 3.30 (Cyfnod Allweddol 2) |

## 14. Newidiadau i'r Prosbectws Ysgol

Cyhoeddir llawlyfr Gwybodaeth i Rieni yn flynyddol sy'n cynnwys gwybodaeth am drefniadaeth a rheolau'r ysgol. Mae copi o'r llyfryn ar gael ar wefan yr ysgol gyda chopi papur ar gael yn yr ysgol ar gais rhieni. Mae rhieni disgyblion newydd i'r Meithrin yn derbyn copi o'r Llawlyfr yn flynyddol.

## 15. Cwricwlwm

Fel pob ysgol arall mae Ysgol Cymerau yn dilyn Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru a'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol. Mae'r ysgol hefyd yn ymateb i ofynion newydd y Fframwaith Cymhwysedd Digidol. Mae crynodeb o gwricwlwm yr ysgol yn ein llawlyfr ysgol. Mae'r ysgol hefyd yn arbrofi ar gyfer y cwricwlwm newydd arfaethedig 'Cwricwlwm i Gymru'.

**Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad (ADYaCh) yr ysgol:**
Amcan yr ysgol yw adnabod y plant gyda ADYaCh yn fuan er mwyn gallu cynnig y ddarpariaeth orau a mwyaf cynhwysfawr y gellir ar eu cyfer gan helpu'r disgyblion gyrraedd eu llawn potensial.
I'r perwyl hwn mae Cynlluniau Addysg Unigol neu Gynlluniau Datblygu Unigol manwl yn cael eu paratoi ar gyfer y plant a byddwn yn adolygu'r rhain gyda'r rhieni. Cydlynydd ADYaCh Ysgol Cymerau ydi Mrs Mari Lois Hughes a Mrs Einir Rees Jones yw'r lywodraethwraig sydd yn gyfrifol am ADYaCh. Mae'r ysgol yn targedu pob plentyn sydd ar gam anghenion '**Cymorth Ysgol'** (cymorth wedi ei drefnu a'i dalu amdano gan yr ysgol) neu '**Cymorth Ysgol +**' (cymorth gan yr ysgol a gan asiantaeth arall) i gyrraedd y lefelau disgwyliedig.

Nid ydym yn gosod yr un targedau i ddisgyblion sydd â **CDU Awdurdod neu Ddatganiad** (plant sydd fel arfer angen cymhorthydd yn y dosbarth i'w helpu am gyfnodau amrywiol) yn enwedig yn yr agwedd o waith ble maent yn cael trafferthion. Mae targedau heriol o fewn eu gallu yn cael eu gosod i'r disgyblion yma.
Mae nifer y plant ym mhob blwyddyn yn weddol uchel, ac mae hyn yn effeithio ar ganlyniadau'r ysgol.
Gweler adroddiad cyfarfodydd y llywodraethwyr am fwy o fanylion. Ceir copi o bolisi ADYaCh yn yr ysgol.

**Disgyblion Anabl neu Anawsterau Corfforol/Meddygol:**
Bydd yr ysgol yn sicrhau mynediad llawn i ddisgyblion sydd ag anableddau neu anawsterau Corfforol/Meddygol ac mae ystafell therapi bwrpasol yn yr ysgol. Mae polisïau'r ysgol yn sicrhau na fydd disgyblion anabl yn cael eu trin yn llai ffafriol na'r disgyblion eraill.

| | GY | GY+ | CDU Awdurdod | CDU Fforwm | CDU Ymddygiad | Datganiad | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwir nifer disgyblion ar gyfnodau ADYaCh | 45 | 28 | 4 | 11 | 2 | 2 | 92 |
| % | 13% | 8% | 1% | 3% | 0.6% | 0.6% | 26% |

## 16. Categori Iaith

Mae'r ysgol yn ysgol ddwyieithog.

## 17. Defnydd o'r Gymraeg

Y Gymraeg yw prif iaith yr ysgol.

Y Gymraeg yw prif iaith Y Cyfnod Sylfaen – bydd plant nad ydynt yn siarad Cymraeg yn cael eu 'trochi' yn yr iaith a buan iawn y dônt i siarad yn rhugl.

Y Gymraeg yw prif iaith gyfathrebu yr ysgol. Nod Siarter Iaith Ysgolion Cymraeg Gwynedd yw i bob plentyn siarad Cymraeg ar y coridorau ac allan ar yr iard.

Yn unol â Pholisi Iaith Gwynedd addysgir pob plentyn drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd Saesneg yn cael ei chyflwyno yn anffurfiol ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen ac yn ffurfiol o Flwyddyn 3 ymlaen. Ein nod yw i bob plentyn fod yn rhugl ddwyieithog yn gadael yr ysgol.
Os bydd plentyn di-gymraeg yn dod i'r ysgol, bydd yn cael ei 'drochi' yn yr iaith yn y Cyfnod Sylfaen ac yn mynd i'r Uned Iaith leol (Llangybi) am dymor yn Cyfnod Allweddol 2.

## 18. Toiledau'r Ysgol

Mae toiledau pwrpasol, gan gynnwys toiledau 'bach' yn y Cyfnod Sylfaen - cymhareb tua 1:10
Mae toiledau bechgyn a merched ar wahân yn CA2 – cymhareb tua 1:10
Mae toiledau'r staff yng nghyntedd yr ysgol.
Bydd y toiledau yn cael eu glanhau yn ddyddiol.